Atodiad B: EQUALITY IMPACT ASSESSMENT

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau Plant o Dan Gyfyngiad) (Cyfyngiadau Trosiannol) (Cymru) 2026

1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r Rheoliadau yn dechnegol eu natur ac yn ymwneud â chyfyngiadau ar ehangu darparwyr presennol gwasanaethau cartref plant a gwasanaethau maethu yn y dyfodol yn unig. Nid ydynt yn newid cymhwystra ar gyfer gwasanaethau, lleoliadau presennol, safonau gwasanaeth na dyletswyddau darparwyr o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb. Felly, ni ddisgwylir iddynt gael unrhyw effaith uniongyrchol sylweddol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

Mae'r Rheoliadau yn cefnogi ymrwymiad statudol Llywodraeth Cymru, a sefydlwyd o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 ("Deddf 2025"), i alluogi trosglwyddiad amserol a rheoledig i fodel nid-er-elw o ofal i blant sy'n derbyn gofal. Bwriad y cynnig i gyflwyno'r cyfyngiadau ar hyn o bryd yw sefydlogi'r farchnad gofal bresennol ac osgoi sefyllfa lle mae darpariaeth er elw yn ymsefydlu ymhellach yn ystod y cyfnod pontio (y bwriedir iddo bara tan fis Ebrill 2030).

Mae'r asesiad wedi'i lywio gan dystiolaeth a safbwyntiau a gasglwyd ymgynghoriad ehangach, gan gynnwys ymatebion gan sefydliadau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc. Bydd ymgysylltu a chyfathrebu ehangach sy'n ymwneud â gweithredu yn parhau i gael eu hystyried drwy'r Bwrdd Gweithredu Gofal Plant Nid-er-Elw newydd, ei ffrydiau gwaith ategol a'r grŵp cyfathrebu dileu elw.

Risg anuniongyrchol bosibl yw y gallai cyfyngu ar ehangu'r ddarpariaeth er elw bresennol effeithio ar ddigonolrwydd lleoliad os nad yw'r ddarpariaeth nid-er-elw briodol yn cael ei datblygu mewn modd amserol. Gallai hyn gael mwy o effaith ar blant y gall eu hanghenion fod yn anoddach i'w diwallu, gan gynnwys plant anabl a phlant ag anghenion cymhleth. Bydd y risg hon yn cael ei rheoli drwy gynllunio blynyddol awdurdodau lleol ar gyfer digonolrwydd, monitro parhaus a gweithgarwch

gweithredu ehangach i gefnogi'r gwaith o ddatblygu darpariaeth nid-er-elw addas. Gan ystyried y trefniadau lliniaru hyn, ni ddisgwylir unrhyw effaith wahaniaethol sylweddol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

Mae'r Rheoliadau yn cefnogi'r amcanion polisi dileu elw ehangach o dan Ddeddf 2025. Bydd unrhyw effeithiau cydraddoldeb cadarnhaol ehangach yn dibynnu ar ddatblygu a chomisiynu digon o ddarpariaeth nid-er-elw priodol yn amserol, yn hytrach na deillio'n uniongyrchol o'r Rheoliadau hyn.

Bydd cynllunio digonolrwydd blynyddol awdurdodau lleol yn rhan bwysig o reoli'r risg a nodwyd, gan gynnwys ystyried anghenion plant ag anghenion cymhleth a phlant anabl. Ymdrinnir ag ystyriaethau cynllunio ehangach, gan gynnwys anghenion ieithyddol, ar wahân yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

2. Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig:

Grŵp neu nodwedd warchodedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
Oedran	Ni ddisgwylir unrhyw effaith uniongyrchol sylweddol. Nid yw'r Rheoliadau yn newid cymhwystra ar gyfer gwasanaethau, lleoliadau presennol, safonau gwasanaeth na dyletswyddau darparwyr o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb. Gallai effaith anuniongyrchol bosibl godi os yw cyfyngu ar ehangu'r ddarpariaeth er elw bresennol yn effeithio ar ddigonolrwydd lleoliad cyn datblygu darpariaeth nid-er-elw briodol ddigonol	Mae'r Rheoliadau yn dechnegol eu natur ac yn ymwneud â chyfyngiadau ar ehangu darparwyr presennol gwasanaethau cartref plant a gwasanaethau maethu yn y dyfodol yn unig. Maent yn berthnasol i ehangu darparwyr yn y dyfodol yn hytrach nag i fynediad unigolion at wasanaethau. Felly, disgwylir i unrhyw effaith wahaniaethol godi'n anuniongyrchol trwy argaeledd lleoliadau addas yn hytrach nag yn uniongyrchol o'r cyfyngiadau.	Bydd y risg a nodwyd yn cael ei lliniaru drwy gynllunio blynyddol awdurdodau lleol ar gyfer digonolrwydd, monitro parhaus a gweithgarwch gweithredu ehangach i gefnogi datblygiad amserol darpariaeth nid-er-elw addas. O ystyried y trefniadau hyn, ni ddisgwylir unrhyw effaith wahaniaethol sylweddol ar sail oedran.

Anabledd	Mae effaith wahaniaethol anuniongyrchol bosibl wedi'i nodi. Os na fydd digon o ddarpariaeth nid-er-elw priodol yn cael ei datblygu mewn modd amserol, gallai cyfyngu ar ehangu er elw gael mwy o effaith ar blant anabl a phlant ag anghenion cymhleth neu arbenigol.	Efallai y bydd gan blant sydd angen darpariaeth arbenigol ystod fwy cyfyngedig o opsiynau lleoli addas ac felly gall eu hanghenion fod yn anoddach eu diwallu os effeithir ar ddigonolrwydd lleoliad.	Bydd y risg hon yn cael ei rheoli drwy gynllunio digonolrwydd blynyddol awdurdodau lleol, gan gynnwys ystyried anghenion cydraddoldeb a hygyrchedd, monitro parhaus a gweithgarwch gweithredu ehangach i gefnogi'r gwaith o ddatblygu darpariaeth nid-er-elw arbenigol addas.
Ailbennu rhywedd	Fel y cofnod ar gyfer oedran, uchod	Fel y cofnod ar gyfer oedran, uchod	Fel y cofnod ar gyfer oedran, uchod
Beichiogrwydd a mamolaeth	Fel y cofnod ar gyfer oedran, uchod	Fel y cofnod ar gyfer oedran, uchod	Fel y cofnod ar gyfer oedran, uchod
Hil	Fel y cofnod ar gyfer oedran, uchod	Fel y cofnod ar gyfer oedran, uchod	Fel y cofnod ar gyfer oedran, uchod
Crefydd, cred a diffyg cred	Fel y cofnod ar gyfer oedran, uchod	Fel y cofnod ar gyfer oedran, uchod	Fel y cofnod ar gyfer oedran, uchod
Rhyw / Rhywedd	Fel y cofnod ar gyfer oedran, uchod	Fel y cofnod ar gyfer oedran, uchod	Fel y cofnod ar gyfer oedran, uchod
Cyfeiriadedd rhywiol	Fel y cofnod ar gyfer oedran, uchod	Fel y cofnod ar gyfer oedran, uchod	Fel y cofnod ar gyfer oedran, uchod
Priodas a phartneriaeth sifil	Fel y cofnod ar gyfer oedran, uchod	Fel y cofnod ar gyfer oedran, uchod	Fel y cofnod ar gyfer oedran, uchod

Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Plant sy'n derbyn gofal yw'r prif grŵp a allai fod yn destun unrhyw effaith anuniongyrchol ar ddigonolrwydd lleoliad. Ni fydd y Rheoliadau yn effeithio ar leoliadau presennol, cymhwystra gwasanaeth na safonau gofal. Bydd unrhyw effaith anuniongyrchol bosibl yn cael ei rheoli drwy gynllunio digonol, monitro a gweithgarwch gweithredu ehangach.	Fel y cofnod ar gyfer oedran, uchod	Fel y cofnod ar gyfer oedran, uchod
Oedran	Fel y cofnod ar gyfer oedran, uchod	Fel y cofnod ar gyfer oedran, uchod	Fel y cofnod ar gyfer oedran, uchod

Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

Hawliau Dynol	**Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?**	**Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)**	**Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?**
	Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau gael unrhyw effaith uniongyrchol sylweddol ar hawliau dynol pobl. Gallai risg anuniongyrchol bosibl godi os yw cyfyngu ar ehangu darpariaeth er elw bresennol yn effeithio ar ddigonolrwydd lleoliad cyn datblygu	Mae'r Rheoliadau yn dechnegol eu natur ac yn ymwneud â chyfyngiadau ar ehangu darparwyr presennol gwasanaethau cartref plant a gwasanaethau maethu yn y dyfodol yn unig. Nid ydynt yn effeithio ar leoliadau presennol, cymhwystra ar gyfer gwasanaethau na safonau	Bydd unrhyw effaith anuniongyrchol bosibl yn cael ei rheoli trwy gynllunio blynyddol awdurdodau lleol ar gyfer digonolrwydd, monitro parhaus a gweithgarwch gweithredu ehangach i gefnogi datblygiad amserol darpariaeth nid-er-elw addas.

	darpariaeth nid-er-elw priodol ddigonol	gwasanaeth. Mae'r hawliau perthnasol yn cael eu hystyried yn fanylach yn yr Asesiad Effaith ar Hawliau Plant yn Atodiad A	

3. Hawliau Dinasyddion yr UE/AEE a'r EU/EEA and Swistir

Rheoliadau technegol eu natur yw'r rhain ac ni ddisgwylir iddynt gael unrhyw effaith ar unigolion a gynorthwyir gan ddarparwyr gwasanaethau cofrestredig, yn cynnwys rhai y caiff eu hawliau eu hamddiffyn o dan Gytundebau Hawliau Dinasyddion. Nid yw'r newidiadau hyn yn newid hawliau preswylio, mynediad at wasanaethau, nac unrhyw hawliau sy'n deillio o Gytundeb Ymadael y DU â'r UE, y Cytundeb Gwahanu â Gwladwriaethau'r AEE-EFTA, na Chytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir. O'r herwydd, ni ddisgwylir y bydd yna effaith gadarnhaol na negyddol ar ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd na'r Swistir, sy'n byw'n gyfreithlon yn y DU.

Nid yw'r Rheoliadau yn cyflwyno gofynion newydd a fyddai'n effeithio ar hawliau'n ymwneud â phreswylio, cydnabod cymwysterau proffesiynol yn gilyddol, mynediad at systemau nawdd cymdeithasol, na thriniaeth deg. Bydd unigolion a amddiffynnir gan Gytundebau Hawliau Dinasyddion yn parhau i fwynhau'r un amddiffyniadau a'r un hawliau ag o'r blaen, yn cynnwys yr hawl i weithio, astudio, a chael gafael ar ofal iechyd a thai. Ni chaiff rhwystrau eu creu, ac ni chaiff newidiadau eu gwneud i rwymedigaethau cydymffurfio presennol ar gyfer darparwyr gwasanaethau.

I grynhoi, nid yw'r cynnig yn effeithio ar hawliau gweithwyr, darpariaethau anwahaniaethol, na gallu gweithwyr trawsffiniol i barhau i weithio yn y DU. Cyfyngir y newidiadau i addasiadau gweinyddol ac nid ydynt yn effeithio ar ddarparu gofal nac ar brofiad y rhai a gaiff eu cynorthwyo gan ddarparwyr cofrestredig. O'r herwydd, asesir yn gyffredinol na cheir unrhyw effaith o gwbl.